# Gwybodaeth Gyffredinol





Holly ar 01437 Gallwch chi a'ch teulu ymweld â ni cyn i chi ddod i aros i weld sut le sydd yma a beth sy'n mynd ymlaen yn Nhŷ Holly.

Os byddwch yn dod ag unrhyw feddyginiaethau gyda chi, bydd staff yn eu cadw'n ddiogel ac yn eich atgoffa pan fydd hi'n amser i chi gymryd eich meddyginiaeth.

Os ydych yn sâl yn ystod eich arhosiad, byddwn yn edrych ar eich hôl a ffonio'ch teulu/gofalwyr os bydd angen.

Mae swyddfeydd lle mae'r staff wneud rhywfaint o waith. Gallwch ddefnyddio ffôn i ffonio'ch teulu neu'ch ffrindiau neu'ch gweithiwr cymdeithasol.

Rydym wrth ein bodd yn rhannu ac yn ymuno â dyddiau arbennig pawb drwy gydol y flwyddyn. Gall y rhain fod yn grefyddol, diwylliannol/ ysbrydol yn ogystal â phen-blwyddi.

**Fe'ch anogir i roi eich barn, eich hoff a'ch cas bethau.**

1. Rheolwr Tŷ 01437 769858
2. Eich gweithiwr cymdeithasol

   ..............................................................................

3. AGGCC (CSSIW) ar ..............................................................
4. Cwynion Cyngor Sir Penfro ar

   ..............................................................................




Os nad ydych yn hapus am rywbeth yn ystod eich arhosiad mae croeso i chi ddweud hynny. Efallai yr hoffech chi drafod hyn gyda'r rheolwr neu'r Uwch Weithiwr Cymorth, a fydd yn gwrando arnoch ac yn eich helpu i ddatrys y broblem.

**Os oes gennych chi neu'ch teulu gŵyn gallwch gysylltu â:**

1. Rheolwr Tŷ Holly ar 01437 769858
2. Eich gweithiwr cymdeithasol

   ..............................................................................

3. AGGCC (CSSIW) ar

   ..............................................................

4. Cwynion Cyngor Sir Penfro ar

   ..............................................................



Os ydych yn teimlo'ch bod angen rhywfaint o gefnogaeth er mwyn i'ch llais gael ei glywed gan y bobl iawn, neu eich bod angen rhywun i'ch helpu i gymryd camau gweithredu, gallwch gysylltu ag eiriolwr.

Gellir cysylltu ag eiriolwr annibynnol drwy GWEITHREDU DROS BLANT

www.pembsyc.org.uk/action-for-children
Ffôn: **01437 761330**



# Tŷ Holly

## Hwlffordd



> "Yn Nhŷ Holly gallwch chi gael hwyl, mwynhau eich hunan a theimlo'n ddiogel. Gallwch ddysgu sgiliau newydd a chwrdd â ffrindiau newydd."

# Beth allwch chi ei wneud yn Nhŷ Holly?

Mae gweithgareddau Holly House yn amrywio o deithiau siopa lleol, gemau awyr agored a dan do, partïon pen-blwydd a digwyddiadau arbennig. Mae gennym fws sydd wedi ei addasu'n arbennig ar gyfer teithiau grŵp.

Mae lolfa gyda theledu, chwaraewr fideo/DVD a chonsol gemau. Hefyd mae ystafell deganau lle gallwch fwynhau teganau a gemau, gwneud posau, gwrando ar gerddoriaeth acymlacio gyda ffrindiau.



Gallwch hefyd ddefnyddio'r ystafell synhwyraidd a chwarae gydag offer synhwyraidd.

Os hoffech chi, gallwch gael aromatherapi gan staff Tŷ Holly!



Mae gardd fawr i chi i gael hwyl ynddi. Gallwch reidio beic, chwarae pêl-droed, chwarae ar y siglen a llawer mwy.

Mae gennym hefyd drampolîn mawr i chi neidio arno ac offerynnau cerdd i chi eu chwarae.

Mae gan Dŷ Holly fws mini, ac rydym yn ei ddefnyddio i fynd allan ar deithiau i barciau, traethau a llawer mwy.

# Staff

Bydd yr holl staff yn gweithio'n galed iawn i'ch helpu i fod yn hapus ac i deimlo'n gyfforddus yn Nhŷ Holly.

Byddant yn gofyn llawer o gwestiynau i chi a'ch teulu er mwyn iddynt gael gwybod beth yr ydych yn ei hoffi a beth nad ydych yn ei hoffi, fel y gallwn wneud eich amser yn Nhŷ Holly'n bleserus.

Bydd y wybodaeth hon yn cael ei ysgrifennu yn eich cynllun gofal fel bod pawb sy'n gweithio gyda chi yn gallu ei ddarllen ac yn gwybod beth yr ydych yn ei wneud.

Bydd staff yno i wrando ac i helpu gydag unrhyw ddewisiadau yr hoffech eu gwneud.



## Prydau

Rydym yn hoffi bwyta'n prydau gyda'n gilydd yn yr ystafell fwyta.

Gallwch ddewis eistedd gyda ffrindiau a sgwrsio am eich diwrnod.

Gallwch fwynhau bwyd blasus da. Rydym yn ceisio rhoi'r bwyd yr ydych yn ei hoffi i chi a hefyd yn eich annog i roi cynnig ar fwydydd newydd.

Os oes gennych unrhyw offer arbennig fe fydd gennym er mwyn i chi ei ddefnyddio yma.

Mae byrbrydau iach ar gael hefyd.

# Ystafelloedd Gwely



Mae gennym 6 ystafell wely, wedi'u paentio mewn lliwiau gwahanol. Mae gan 1 ystafell wely offer arbennig i'ch helpu i gael cawod a defnyddio'r toiled.



Gallwch ddod â theganau, gemau, llyfrau ac unrhyw beth arall sy'n gwneud i chi deimlo'n gartrefol. Mae'n well i chi beidio dod ag unrhyw beth a allai dorri neu fynd ar goll.

Peidiwch ag anghofio dod â'ch dillad a'ch bag ymolchi. Os fyddwch chi angen unrhyw help yn y nos, mae aelod o staff yn effro bob nos i wneud yn siŵr eich bod yn ddiogel.



Mae offer arbennig yn yr ystafell ymolchi i'ch helpu os ydych yn cael trafferth mynd i mewn ac allan o'r bath.